TGAU

# CBAC TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Gradd Unigol a Dwyradd)

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

Uned 3: Agweddau
Addysgu o 2025
Dyfarnu o 2027

Fersiwn 2 - Mawrth 2026



Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Gwiriad i Daflen Cofnodi Marciau'r Ymgeisydd & Ffurflen Datganiad yr Ymgeisydd | 15-16 |

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio gydag asesiadau byw



© WJEC CBAC Ltd 2025

## Cynnwys

Tasg ........................................................ 1
Asesu ........................................................ 6
Atodiad 1 ........................................................ 15

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio gydag asesiadau byw

**Hawlfraint**

© WJEC CBAC Limited 2025

# Uned 3

3030N3
Manylion Asesu

| |
|---|
| Asesiad di-arholiad:<br>Tasg Ysgrifenedig a Thasg Lafar Unigol<br>20% o'r cymhwyster gradd unigol (10% o’r cymhwyster dwyradd)<br>Wedi’i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a’i gymedroli gan CBAC<br>60 marc |

## Tasg

Mae gofyn i ddysgwyr:

**Tasg 1: Gwerthfawrogi a Chymharu Cerddi**

- ymateb i o leiaf **6** cherdd (Gosodir y thema gan CBAC)
- ymateb i gerddi gan o leiaf **3** bardd gan gynnwys **1** bardd G20 ac **1** bardd G21
- ymateb i gerddi caeth, rhydd a phenrhydd.

**Tasg 2: Cyflwyniad Unigol**

- siarad am **5** munud (Gosodir y thema gan CBAC).

**Tasg 1**

**Gosod y dasg:**

Disgwylir i ddysgwyr astudio **6** cherdd ar thema benodol. Bydd CBAC yn rhyddhau cwestiwn yn cynnwys y thema benodol. Bydd y thema o fewn y cwestiwn yn newid bob **dwy** flynedd. Rhennir gwybodaeth am y cwestiwn i ganolfannau ym mis Ebrill trwy Porth CBAC. Mae’n ofynnol i ganolfannau sicrhau eu bod yn defnyddio’r thema gywir ar gyfer bob cyfres. Gweler isod:

| Rhyddhau Cwestiwn | Cyfres |
|---|---|
| Ebrill 2025 | Haf 2026 a 2027 |
| Ebrill 2027 | Haf 2028 a 2029 |
| Ebrill 2029 | Haf 2030 a 2031 |

Bydd hyn yn rhoi rhyddid i ganolfannau ddewis casgliad o gerddi addas i’w dysgwyr.

Bydd gofyn i ddysgwyr werthfawrogi a chymharu **3** cerdd gan wneud cymariaethau synoptig â'r **3** arall. Dangosir thema bosib a chyfuniadau o gerddi a beirdd addas yn Atodiad 1 isod, ac fe osodir enghreifftiau pellach ar Porth CBAC, a bydd y rhain yn newid bob **dwy** flynedd wrth i’r thema newid.

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio gydag asesiadau byw



© WJEC CBAC Ltd 2025

## Ymgymryd â'r dasg

### Ymchwilio a pharatoi

Dylai athrawon roi'r dasg i'r dysgwyr tua **5 awr** cyn y disgwylir iddynt gyflawni'r dasg. Nid yw hyn yn cynnwys yr amser sydd ei angen i baratoi'r testunau gyda'r dysgwyr.

### Goruchwyliaeth

Bydd angen i ganolfannau gwblhau’r cyfnod ymchwilio a pharatoi hwn dan oruchwyliaeth anuniongyrchol.

**Adnoddau**
Yn ystod y cyfnod ymchwilio a pharatoi:

- gall dysgwyr gyfeirio at y testunau
- gall dysgwyr gael mynediad at adnoddau a/neu nodiadau paratoadol
- gall dysgwyr ddefnyddio’r we
- gall dysgwyr gael mynediad at eiriaduron/thesawrws
- gwaherddir defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) i gynhyrchu ymatebion a chaiff ei drin fel camymddwyn
- gall dysgwyr greu taflen gynllunio

Gall athrawon drafod a rhoi cyngor cyffredinol i ddysgwyr. Gellir gosod ymarferion/tasgau byrion, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, i'w cwblhau gan y dysgwyr yn y dosbarth i’w cynorthwyo i ddeall natur y dasg.

Gall dysgwyr weithio'n unigol neu gydweithio â’i gilydd wrth gwblhau’r ymarferion hyn. Dylid cofnodi unrhyw arweiniad a roddir i'r dysgwyr ar y taflenni marcio unigol pan gyflwynir y sampl i'w safoni.

Caniateir i ddysgwyr ailddrafftio’r daflen gynllunio yn ystod y cyfnod paratoi. Unwaith y bydd y gwaith paratoi wedi dechrau, rhaid cyfyngu adborth i gyngor cyffredinol ar yr hyn sydd angen ei wella. Ni ddylai athrawon roi arweiniad penodol ar sut i gyflawni'r gwelliannau hyn.

### Cwblhau’r dasg

Goruchwyliaeth
Rhaid i ganolfannau gwblhau’r dasg dan oruchwyliaeth uniongyrchol.

**Adnoddau**

Wrth gwblhau’r dasg hon:

- gall dysgwyr ddefnyddio hyd at un ochr tudalen A4 o bwyntiau bwled byr (ffont maint 11 neu uwch os y defnyddir TG) y maent wedi'u paratoi ymlaen llaw. Rhaid cyflwyno'r dudalen gyda'r dasg asesu derfynol. Rhaid i’r dysgwyr beidio â defnyddio gwaith estynedig sydd wedi’i baratoi ymlaen llaw e.e. paragraffau llawn/brawddegau llawn ar y daflen hon. Caniateir pwyntiau bwled byr sy'n cynnwys enghreifftiau a dyfyniadau perthnasol ar gyfer y dasg
- gall dysgwyr ddefnyddio geiriaduron/thesawrws
- gall dysgwyr gyfeirio at y testunau yn ystod y cyfnod ysgrifennu. Ni ddylai rheini gynnwys unrhyw nodiadau ac ni ddylid tanlinellu dyfyniadau o'r testunau hynny.

Ni chaiff dysgwyr ymgynghori â'i gilydd.

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio gydag asesiadau byw



© WJEC CBAC Ltd 2025

Neilltuir **2 awr 30 munud** i gwblhau'r dasg. Os bydd y dasg yn cael ei gweinyddu yn ystod cyfnodau byrrach na 2 awr 30 munud, yna dylid ei chasglu ar ddiwedd pob cyfnod a'i chadw'n ddiogel yn y ganolfan.

Awgrymir y dylai hyd y dasg fod rhwng 500-1,500 o eiriau.

Dylid nodi:
- testun y dasg
- dyddiad y dasg

ar y gwaith a gyflwynir ar gyfer ei asesu.

Unwaith y bydd y gwaith wedi'i gyflwyno i'r athro/athrawes ni ellir ei ddiwygio ymhellach. Ni ddylai athrawon wneud unrhyw sylwadau ar y gwaith yn y cyfnodau interim. Ni ellir defnyddio TG i gyflawni'r dasg hon, oni bai mai dyma ffordd arferol y dysgwr o weithio. Dylai canolfannau gyfeirio at ddogfen Trefniadau Mynediad y CGC am wybodaeth bellach.

Rhaid i'r dysgwyr beidio ag ailddrafftio'r gwaith gorffenedig.

**Dilysu'r Asesiadau Di-arholiad**

Mae gofyn i ddysgwyr lofnodi mai eu gwaith eu hunain yw'r gwaith a gyflwynwyd ac mae gofyn i athrawon/aseswyr gadarnhau mai gwaith y dysgwr o dan sylw'n unig yw'r gwaith a asesir ac iddo gael ei wneud o dan yr amodau gofynnol. Bydd CBAC yn darparu copi o'r ffurflen ddilysu, sy'n rhan o'r ffurflen glawr ar gyfer pob dysgwr. Mae'n bwysig nodi bod gofyn i bob dysgwr lofnodi'r ffurflen hon, ac nid yn unig y rhai y mae eu gwaith yn rhan o'r sampl a gyflwynir i'r cymedrolwr. Nid oes angen adrodd i CBAC am gamymddygiad a ddarganfuwyd cyn i'r dysgwr lofnodi'r datganiad dilysu ond rhaid ymdrin ag ef yn unol â gweithdrefnau mewnol y ganolfan.

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio gydag asesiadau byw



© WJEC CBAC Ltd 2025

**Tasg 2**

**Gosod y dasg:**

Ar gyfer y dasg hon, dylai canolfannau roi cyfle i ddysgwyr gymryd rhan yn unigol, trwy gyflwyno gwybodaeth am unrhyw agwedd neu agweddau sy'n ymwneud â thema tasg 1. Mae rhyddid gan ddysgwyr i ddewis yr agwedd neu agweddau a drafodir. Dangosir rhai enghreifftiau posib yn Atodiad 1 isod, ac fe osodir enghreifftiau pellach ar Porth CBAC, a bydd y rhain yn newid bob **dwy** flynedd wrth i'r thema newid.

Disgwylir y bydd cyflwyniad unigol yn para hyd at **5** munud, gan gynnwys ymateb i gwestiynau gan y gynulleidfa.

**Ymgymryd â'r dasg**

**Ymchwilio a pharatoi**

Dylid rhoi **5 awr** i ddysgwyr baratoi ar gyfer y dasg ymlaen llaw.

Goruchwyliaeth

Bydd angen i ganolfannau gwblhau'r cyfnod ymchwilio a pharatoi hwn dan oruchwyliaeth anuniongyrchol.

Adnoddau
Yn ystod y cyfnod ymchwilio a pharatoi:

- mae'n ofynnol i ddysgwyr ymchwilio i bwnc trwy, er enghraifft, ddefnyddio'r we, darllen papurau newydd / cylchgronau / cyfeirlyfrau / taflenni, gwrando ar raglenni teledu neu ofyn cwestiynau eraill
- gall dysgwyr ailddrafftio'r gwaith ymchwil
- gwaherddir defnyddio AI i gynhyrchu ymatebion a chaiff ei drin fel camymddwyn
- dylai dysgwyr gyflwyno eu gwaith ymchwil ar un o'r ffurfiau canlynol:
  - pwyntiau bwled
  - cyflwyniad PowerPoint
  - cyflwyniad Sway

(Dylid pwysleisio nad tasg ddarllen yw hon, ond yn hytrach cyflwyniad llafar wedi'i baratoi gan y dysgwr).

Unwaith y bydd y gwaith paratoi wedi dechrau, rhaid cyfyngu adborth i gyngor cyffredinol ar yr hyn sydd angen ei wella. Ni ddylai athrawon roi arweiniad penodol ar sut i gyflawni'r gwelliannau hyn.

Gall dysgwyr weithio'n unigol neu gydweithio â'i gilydd wrth gwblhau'r ymchwil. Dylid cofnodi unrhyw arweiniad a roddir i'r dysgwyr ar y taflenni marcio unigol pan gyflwynir y sampl i'w safoni.

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio gydag asesiadau byw



© WJEC CBAC Ltd 2025

**Cwblhau'r dasg**

Goruchwyliaeth
Rhaid i ganolfannau gwblhau'r dasg dan oruchwyliaeth uniongyrchol.

Adnoddau
Wrth gwblhau'r dasg hon:

- gall dysgwyr ddefnyddio gwrthrychau neu ddelweddau fel cymorth wrth gyflwyno gwybodaeth am eu pwnc dewisol
- gall dysgwyr ddefnyddio pwyntiau bwled byr sy'n cynnwys ystadegau, ffeithiau, enghreifftiau a dyfyniadau perthnasol

Bydd angen i athrawon gyflwyno gwaith ymchwil y dysgwyr unigol gyda'r recordiadau i CBAC.

Ar ddiwedd y cyflwyniad yn unig y caniateir i ddysgwyr eraill ofyn cwestiynau.

Yn ystod y cyflwyniadau ymchwil unigol, dylai athrawon:

- roi cyfle i'r dysgwyr gyflwyno'n annibynnol
- sicrhau nad yw'r dysgwr yn darllen ei gyflwyniad
- torri ar draws neu annog dim ond pan fo angen
- rheoli cwestiynau a ofynnir i'r dysgwyr.

Ceir mwy o wybodaeth am sut i ymdrin ag ymyrraeth athro/athrawes wrth asesu dysgwyr o fewn y Canllawiau i Athrawon.

**Dilysu'r Asesiadau Di-arholiad**

Mae gofyn i ddysgwyr lofnodi mai eu gwaith eu hunain yw'r gwaith a gyflwynwyd ac mae gofyn i athrawon/aseswyr gadarnhau mai gwaith y dysgwr o dan sylw'n unig yw'r gwaith a asesir ac iddo gael ei wneud o dan yr amodau gofynnol. Bydd CBAC yn darparu copi o'r ffurflen ddilysu, sy'n rhan o'r ffurflen glawr ar gyfer pob dysgwr. Mae'n bwysig nodi bod gofyn i bob dysgwr lofnodi'r ffurflen hon, ac nid yn unig y rhai y mae eu gwaith yn rhan o'r sampl a gyflwynir i'r cymedrolwr. Nid oes angen adrodd i CBAC am gamymddygiad a ddarganfuwyd cyn i'r dysgwr lofnodi'r datganiad dilysu ond rhaid ymdrin ag ef yn unol â gweithdrefnau mewnol y ganolfan.

Cyn i unrhyw waith tuag at yr Asesiad Di-arholiad gael ei gwblhau, dylid tynnu sylw'r dysgwyr at yr Hysbysiad i Ymgeiswyr perthnasol gan y CGC. Ceir cyswllt i'r hysbysiad yn y ddogfen Cyfarwyddiadau ar Gynnal Asesiadau dan Reolaeth ar wefan CGC (www.jcq.org.uk).

Sampl i ddylunio ei ddefnyddio gydag asesiadau byw



© WJEC CBAC Ltd 2025

## Asesu

Disgwylir i'r athro / athrawes farcio'r dasg o gyfanswm o 30.

**Tasg 1 – Gwerthfawrogi a Chymharu Cerddi**

Dyfernir 15 marc ar gyfer AA1 (deall ac ymateb).

Dyfernir 15 marc ar gyfer AA2 (mynegi a chyfathrebu).

Dylid pennu'r band priodol ar gyfer pob colofn yn unigol drwy benderfynu pa ddisgrifydd perfformiad sy'n adlewyrchu perfformiad y dysgwr orau.

Yna dylid pennu'r marc priodol o fewn y band drwy bennu i ba raddau y mae'r dysgwr wedi bodloni'r meini prawf yn y band perthnasol.

Gall cyfanswm y marciau ar gyfer pob perfformiad adlewyrchu gwahanol fandiau ar draws y meini prawf asesu, er enghraifft, gall dysgwyr gyflawni band 4 yng ngholofn 1 a band 3 yng ngholofn 2.

Dylid nodi bod y bandiau wedi'u cynllunio i gynorthwyo'r broses farcio drwy nodi lefelau cyflawniad unigol ac nid ydynt yn cyfateb i ffiniau graddau.

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio gydag asesiadau byw



© WJEC CBAC Ltd 2025

| Band | AA1<br>Deall ac ymateb | AA2<br>Mynegi a chyfathrebu |
|---|---|---|
| 5 | **13-15 marc**<br>• dangos dealltwriaeth dreiddgar o gynnwys a neges y tair prif gerdd a dadansoddi'n ddeallus y modd y maent yn perthyn i'r thema<br>• cynnwys gwybodaeth berthnasol am gefndir beirdd y tair prif gerdd a'u hagweddau tuag at y thema<br>• trafod effeithiolrwydd nodweddion arddull a mesurau y tair prif gerdd yn dreiddgar gan ystyried eu cyfraniad at y thema<br>• croesgyfeirio'n ddeallus rhwng y chwe cherdd wrth ymdrin â gwahanol themâu, mesurau a thechnegau arddull<br>• cyflwyno ymateb personol treiddgar<br>• dyfynnu'n gyson a phwrpasol, a defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn gwbl briodol<br>• cymharu testunau'n fedrus | **13-15 marc**<br>• cyflwyno gwaith clir a chydlynol<br>• gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| 4 | **10-12 marc**<br>• dangos dealltwriaeth dda o gynnwys a neges y tair prif gerdd a dadansoddi'r modd y maent yn perthyn i'r thema<br>• cynnwys peth gwybodaeth berthnasol ac addas am gefndir beirdd a'u hagweddau tuag at y thema<br>• trafod yn dda effeithiolrwydd nodweddion arddull a mesurau y tair prif gerdd a sut maent yn cyfrannu at y thema<br>• croesgyfeirio effeithiol rhwng y chwe cherdd wrth ymdrin â gwahanol themâu a thechnegau arddull<br>• cyflwyno ymateb personol da<br>• dyfynnu'n dda ac i bwrpas, a defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda<br>• cymharu testunau'n dda | **10-12 marc**<br>• cyflwyno gwaith clir a threfnus<br>• gafael sicr ar ramadeg<br>• defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• sillafu sicr<br>• gafael sicr ar dreigladau<br>• gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio gydag asesiad byw



© WJEC CBAC Ltd 2025

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **7-9 marc**<br>• dangos dealltwriaeth eithaf da o gynnwys a neges y tair prif gerdd a nodi'r modd y maent yn perthyn i'r thema<br>• ychydig o wybodaeth berthnasol am gefndir beirdd y tair prif gerdd a'u hagweddau tuag at y thema<br>• trafod yn eithaf da effeithiolrwydd nodweddion arddull a mesurau y tair prif gerdd a sut maent yn cyfrannu at y thema<br>• ychydig o gymharu rhwng o leiaf 4 o'r cerddi wrth ymdrin â thema/ themâu ac ambell dechneg arddull<br>• cyflwyno ymateb personol eithaf da<br>• dyfynnu a defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn eithaf da | **7-9 marc**<br>• cyflwyno'r gwaith yn drefnus<br>• gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• mwyafrif y treigladau'n gywir<br>• mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |
| **2** | **4-6 marc**<br>• dangos peth dealltwriaeth o gynnwys a neges cerddi<br>• cynnwys rhai manylion prin am gefndir y beirdd a'u hagweddau tuag at y thema<br>• trafod ychydig ar effeithiolrwydd nodweddion arddull a mesurau y cerddi<br>• creu ambell gymhariaeth rhwng cerddi<br>• dangos peth ymateb personol<br>• defnyddio rhai dyfyniadau ac ambell derm beirniadaeth lenyddol | **4-6 marc**<br>• cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus<br>• gafael anghyson ar ramadeg<br>• peth gafael ar gystrawen<br>• peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• sillafu yn eithaf cywir<br>• treigladau yn eithaf cywir<br>• berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio gydag asesiadau byw



© WJEC CBAC Ltd 2025

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **1-3 marc**<br>• ymgais i ddangos dealltwriaeth o gynnwys a neges cerddi<br>• ymgais i gyfeirio at gefndir y beirdd a'u hagweddau tuag at y thema<br>• ymgais i drafod effeithiolrwydd nodweddion arddull a mesurau<br>• ymgais i gymharu cerddi<br>• ymgais i ymateb yn bersonol<br>• defnyddio ambell ddyfyniad | **1-3 marc**<br>• dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith<br>• gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• peth ymdrech i atalnodi<br>• sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **0** | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio gydag asesiadau byw



© WJEC CBAC Ltd 2025

**Tasg 2 – Cyflwyniad Unigol**

Disgwylir i'r athro / athrawes farcio'r dasg o gyfanswm o 30.

Dyfernir 15 marc ar gyfer AA1 (deall ac ymateb).

Dyfernir 15 marc ar gyfer AA2 (mynegi a chyfathrebu).

Dylid pennu'r band priodol ar gyfer pob colofn yn unigol drwy benderfynu pa ddisgrifydd perfformiad sy'n adlewyrchu perfformiad y dysgwr orau.

Yna dylid pennu'r marc priodol o fewn y band drwy bennu i ba raddau y mae'r dysgwr wedi bodloni'r meini prawf yn y band perthnasol.

Gall cyfanswm y marciau ar gyfer pob perfformiad adlewyrchu gwahanol fandiau ar draws y meini prawf asesu, er enghraifft, gall dysgwyr gyflawni band 4 yng ngholofn 1 a band 3 yng ngholofn 2.

Dylid nodi bod y bandiau wedi'u cynllunio i gynorthwyo'r broses farcio drwy nodi lefelau cyflawniad unigol ac nid ydynt yn cyfateb i ffiniau graddau.

| Band | AA1<br>Deall ac ymateb | AA2<br>Mynegi a chyfathrebu |
|---|---|---|
| 5 | **13-15 marc**<br>• cyflwyno gwybodaeth a syniadau ar wahanol agweddau ar destun heriol, gan werthuso a dehongli'r wybodaeth yn dreiddgar<br>• defnyddio terminoleg gwbl briodol a heriol yn fedrus a rhwydd<br>• mynegi barn yn dreiddgar ar agweddau ar y testun a chefnogi'r farn honno gyda thystiolaeth gadarn<br>• ystyriaeth dreiddgar o gyd-destun ehangach a safbwyntiau eraill ar y testun gan gynnwys dibynadwyedd a dilysrwydd ffynonellau a thystiolaeth | **13-15 marc**<br>• gwneud defnydd aeddfed o dechnegau iaith a ffurf sydd yn ennyn a chynnal diddordeb y gwrandäwr<br>• defnyddio cywair sy'n gwbl addas ar gyfer y dasg a'r wybodaeth a gyflwynir<br>• trefnu'r cyflwyniad mewn modd cydlynol a strwythuredig er mwyn ennyn a chynnal diddordeb cynulleidfa<br>• gafael sicr iawn ar ramadeg a defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio gydag asesiadau byw



© WJEC CBAC Ltd 2025

| | | |
|---|---|---|
| 4 | **10-12 marc**<br>• cyflwyno gwybodaeth a syniadau ar wahanol agweddau ar y testun gan werthuso'r wybodaeth yn fedrus<br>• defnyddio terminoleg briodol yn hyderus<br>• mynegi barn yn bwrpasol ar rai agweddau ar y testun a chynnig tystiolaeth i gefnogi'r farn<br>• peth ystyriaeth o gyd-destun a safbwyntiau eraill ar y testun gan gynnwys dibynadwyedd a dilysrwydd ffynonellau a thystiolaeth | **10-12 marc**<br>• defnyddio technegau iaith a ffurf sy'n cynnal diddordeb y gwrandäwr<br>• defnyddio cywair priodol ar gyfer y dasg a'r wybodaeth a gyflwynir<br>• trefnu'r cyflwyniad yn synhwyrol er mwyn cynnal diddordeb cynulleidfa<br>• gafael sicr ar ramadeg a defnyddio amrywiaeth o frawddegau yn effeithiol<br>• gafael sicr ar dreigladau<br>• gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| 3 | **7-9 marc**<br>• cyflwyno gwybodaeth a syniadau ar wahanol agweddau ar y testun gan werthuso'r wybodaeth yn foddhaol<br>• defnyddio terminoleg yn eithaf cyson<br>• mynegi barn yn eithaf cyson ar agweddau ar y testun a chynnig tystiolaeth i gefnogi rhai pwyntiau<br>• prin yw'r ystyriaeth o gyd-destun a safbwyntiau eraill ar y testun gan gynnwys dibynadwyedd a dilysrwydd ffynonellau a thystiolaeth | **7-9 marc**<br>• defnyddio technegau iaith a ffurf addas yn eithaf cyson<br>• defnyddio cywair priodol drwy fwyafrif y dasg<br>• trefnu'r cyflwyniad yn eithaf da mewn ymgais i gynnal diddordeb cynulleidfa<br>• gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan a defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |
| 2 | **4-6 marc**<br>• cyflwyno gwybodaeth a syniadau yn syml am agwedd(au) ar y testun<br>• defnyddio terminoleg ar adegau<br>• mynegi peth barn ar agweddau o'r testun | **4-6 marc**<br>• defnyddio rhywfaint o dechnegau iaith a ffurf wrth gyflwyno<br>• defnyddio cywair priodol i'r dasg mewn mannau<br>• peth trefn i'r cyflwyniad ac ychydig o ymwybyddiaeth o gynulleidfa<br>• gafael anghyson ar ramadeg ac amrywio brawddegau rhywfaint<br>• treigladau yn eithaf cywir<br>• berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio gydag asesiadau byw



© WJEC CBAC Ltd 2025

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **1-3 marc**<br>• cyflwyno gwybodaeth a syniadau yn fyr am y testun<br>• ymgais i gynnwys terminoleg<br>• ymgais i fynegi peth barn ar y testun | **1-3 marc**<br>• defnydd cyfyngedig o dechnegau iaith wrth gyflwyno<br>• ymgais i roi peth trefn ar y cyflwyniad<br>• gafael gyfyngedig ar ramadeg ac ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **0** | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio gydag asesiadau byw



© WJEC CBAC Ltd 2025

## Atodiad 1

**Tasgau Enghreifftiol**

**Thema a ryddhawyd gan CBAC:** Gwlad a Thir

**Tasg 1: Gwerthfawrogi a Chymharu Cerddi**

**Cwestiwn posib:**

Trafodwch sut mae'r beirdd yn mynd ati i ymdrin â'r thema **Gwlad a Thir** yn y cerddi a astudiwyd gennych. Dylech drafod yn llawn sut mae tair cerdd yn ymateb i'r thema, a chyfeirio at dair cerdd arall lle bo cyfle addas i wneud hynny.

**Cyfuniad posib o feirdd a cherddi:**

| | | Bardd G20 | Bardd G21 | Mesur Caeth | Mesur Rhydd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Prif Gerddi** | **Cerdd 1** | **Hon** – T.H Parry-Williams | | | Mydr ac odl / rhigwm |
| | **Cerdd 2** | | **Caerdydd** – Mererid Hopwood | | Penrhydd |
| | **Cerdd 3** | **Fy Ngwlad** – Gerallt Lloyd Owen | | Cywydd | |
| **Cerddi Cyfeirio** | **Cerdd 4** | **Hen Stori** – B.T Hopkins | | | Mydr ac odl |
| | **Cerdd 5** | | **Neijal**– Ifor ap Glyn | | Penrhydd |
| | **Cerdd 6** | | **Y Llanw yn Llŷn** – Rhys Iorwerth | Englyn | |

Sampl ni ddefnyddir gydag asesiadau byw



© WJEC CBAC Ltd 2025

**Tasg 2 – Cyflwyniad Unigol**

Byddai modd i ddysgwyr ymchwilio a thrafod **un** o'r pynciau hyn yn seiliedig ar y thema.

**Gwlad a Thir**:
- Hanes a datblygiad yr Iaith Gymraeg
- Capel Celyn a chefndir creu'r gronfa ddŵr
- Cyflwyno gwybodaeth am ddatblygiad a newid mewn un dref / ardal benodol yng Nghymru
- Effeithiau newid hinsawdd
- Gofalu am yr amgylchedd
- Egni adnewyddadwy i'r dyfodol
- Gwybodaeth am drychineb naturiol enwog
- Natur a bywyd gwyllt - rhywogaeth mewn perygl
- Gwlad neu leoliad o ddiddordeb mewn rhan arall o'r by

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio gydag asesiadau byw



© WJEC CBAC Ltd 2025

wjec cbac

**Uned 3: Agweddau**

# TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg

Taflen Cofnodi Marciau'r Ymgeisydd & Ffurflen Datganiad yr Ymgeisydd

| **Enw'r Ganolfan:** | | **Rhif y Ganolfan:** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Ymgeisydd:** | | **Rhif yr Ymgeisydd:** | | | | | |

| **Manylion yr Asesiadau** | |
|---|---|
| **Tasg 1: Gwerthfawrogi a Chymharu Cerddi** | |
| **Disgrifiad o'r dasg** | |
| **Tasg 2: Cyflwyniad Unigol** | |
| **Disgrifiad o'r dasg** | |

Sampl i'w defnyddio gydag asesiadau byw

**Datganiad Dilysu'r Ymgeisydd**

Rwy'n datgan fy mod wedi cwblhau fy ngwaith yn annibynnol, heb unrhyw gymorth y tu hwnt i'r hyn oedd wedi ei ganiatáu. Fy ngwaith fy hun yw'r gwaith i gyd, ac eithrio unrhyw ddeunydd nad yw'n wreiddiol sydd wedi'i nodi'n glir uchod. Nid yw'r gwaith hwn wedi'i gyflwyno ar gyfer unrhyw gymhwyster arall. Yr wyf wedi cyfeirio'n glir at unrhyw ffynonellau ac unrhyw offer Deallusrwydd Artiffisial (AI) a ddefnyddiwyd yn y gwaith.[1] Rwy'n deall bod gwneud datganiad ffug yn fath o gamymddwyn.

**Cydsyniad GDPR Ymgeisydd**

- Efallai y bydd CBAC yn dewis eich gwaith i'w ddefnyddio mewn digwyddiadau hyfforddi i athrawon. Gallan nhw wedyn ei llwytho i wefan ddiogel CBAC (dim ond ar gael i athrawon sydd â mynediad drwy fewngofnodi diogel). Byddai eich enw yn cael ei dynnu oddi ar eich gwaith cyn i ni ei ddefnyddio. Mae pob darn yn cael ei adolygu'n gyson a'i ddileu pan nad yw'n berthnasol i'n cymwysterau mwyach.
- Efallai y bydd CBAC yn dewis eich gwaith i'w ddefnyddio mewn adnoddau ar gyfer addysgu a dysgu a gyhoeddir ar wefan gyhoeddus CBAC. Byddai eich enw yn cael ei dynnu oddi ar eich gwaith cyn i ni ei ddefnyddio. Mae pob darn yn cael ei adolygu'n gyson a'i ddileu pan nad yw'n berthnasol i'n cymwysterau mwyach.
- Rydych chi'n deall ei bod yn bosibl dod â'r cytundeb hwn i ben ar unrhyw adeg drwy ysgrifennu atom i wneud cais am hynny . Am ragor o fanylion ynglŷn â sut rydym yn prosesu eich data, darllenwch Hysbysiad Preifatrwydd CBAC.

**Datganiad yr Ymgeisydd**

☐ Rwy'n rhoi caniatâd i fy ngwaith llafar gael ei ddefnyddio mewn digwyddiadau hyfforddi athrawon ac i'w lwytho i fyny ar wefan ddiogel CBAC / i gael ei ddefnyddio fel rhan o adnodd dysgu ac addysgu digidol ar wefan gyhoeddus CBAC. Ticiwch y blwch i gytuno.

**Llofnod yr Ymgeisydd:** **Dyddiad:**

[1] Lle defnyddiwyd offer DA/AI fel ffynhonnell gwybodaeth, rhaid i chi ddangos enw'r ffynhonnell DA/AI a ddefnyddiwyd gan ddangos hefyd y dyddiad y cynhyrchwyd y cynnwys. Er enghraifft: ChatGPT 3.5 (https://openai.com/blog/chatgpt/), 25/01/2023. Rhaid i chi gadw copi o'r cwestiwn (cwestiynau) a'r cynnwys wedi'i gynhyrchu gan gyfriffiadur at ddibenion cyfeirnodi a dilysu, ar ffurf nad oes modd ei golygu (sgrinlun, er enghraifft) a darparu esboniad byr o sut cafodd ei ddefnyddio. Rhaid cyflwyno hyn gyda'ch gwaith, er mwyn i'r athro/aseswr allu adolygu'r gwaith, y cynnwys a gynhyrchwyd gan DA/AI a sut y cafodd ei ddefnyddio. Rhaid i chi fod dros 13 oed i roi cydsyniad. Cewch chi dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â CBAC ar cymwysterau@cbac.co.uk. Dylech chi gynnwys teitl y gwaith, blwyddyn yr asesiad, enw a rhif y ganolfan, enw'r ymgeisydd a theitl yr uned yn yr e-bost. Yna bydd y gwaith yn cael ei dynnu oddi ar y wefan ddiogel.



© WJEC CBAC Ltd 2025

## Sylwadau a Datganiad yr Athro/Athrawes/Aseswr

| | |
|---|---|
| Rhowch sylwadau ar waith yr ymgeisydd i gefnogi'r marciau a roddir gan gyfeirio at bob un o'r amcanion asesu perthnasol. Nodwch hefyd unrhyw wybodaeth am amser ychwanegol, neu gymorth ychwanegol a roddwyd i'r ymgeisydd. | |
| **Tasg 1: Gwerthfawrogi a Chymharu Cerddi** | |
| **Sylwadau:** | **Marciau:**<br>**AA1** ( /15) |
| | **AA2** ( /15) |
| | **Cyfanswm:** /30 |
| | **SAG a ddidynir**[2]<br>**-** / |
| | **Cyfanswm terfynol (wedi'i addasu)**:<br>/30 |
| **Tasg 2: Cyflwyniad Unigol** | |
| | **Marciau**<br>**AA1** ( /15) |
| | **AA2** ( /15) |
| | **Cyfanswm:** /30 |
| **CYFANSWM MARC YR UNED (gan gynnwys didyniadau SAG lle bo'n berthnasol):**<br>**/60** | |
| **Datganiad gan Athro/Athrawes/Aseswr**<br>Rwy'n cadarnhau bod gwaith yr ymgeisydd wedi ei gynnal yn unol â'r amser, a'r amodau a nodwyd yn y fanyleb. Mae'r ymgeisydd wedi cyfeirio'n glir at unrhyw ffynonellau ac unrhyw offer DA/AI a ddefnyddir yn y gwaith. Rwy'n deall bod datganiad ffug yn fath o gamymddwyn.<br>**Ticiwch y blwch i gadarnhau.** ☐.<br>**Llofnod yr Aseswr:** **Dyddiad:** | |

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio gydag asesiadau byw

[2] Rhowch y marc allan o 6 wedi'i ddidynnu ar gyfer gymorth ysgrifennydd neu brosesydd geiriau. Ar gyfer Tasg 1, bydd naill ai 3 marc ar gyfer lefel isel o gefnogaeth ysgrifennydd neu brosesydd geiriau, neu 6 marc ar gyfer lefel uchel o gefnogaeth ysgrifennydd neu brosesydd geiriau. Rhaid didynnu'r marc hyn o'r cyfanswm ar gyfer tasg 1 i gyrraedd cyfanswm terfynol ar gyfer yr uned.



© WJEC CBAC Ltd 2025